DISGRIFIAD SWYDD
Aelod o'r Tîm Ymgysylltu

Yn atebol i: Goruchwyliwr Tîm Profiad Ymwelwyr

Yn gyfrifol am: Profiad gorau posibl i ymwelwyr

Contract Parhaol: Gwaith penwythnos. Yr oriau gwaith fydd dydd Sadwrn a dydd Sul, 10.45yb i 4.00yp. Mae opsiwn ar gyfer oriau ychwanegol yn ystod dyddiau'r wythnos

Cyfradd fesul awr: £6.56 - £8.91 yr awr

Mae'r cyfraddau yma yn cwrdd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae MOSTYN yn oriel celf gyfoes ryngwladol wedi'i lleoli yng Nghymru. Rydym yn cyflwyno celf gyfoes ryngwladol ragorol sy'n ymgysylltu'n feirniadol ac sy'n ysbrydoli ac yn annog pobl i ffurfio a rhannu safbwyntiau newydd ar y byd trwy ein rhaglenni.

Pwrpas:

Chwarae rôl allweddol mewn sicrhau'r profiad gorau i ymwelwyr MOSTYN, ac arddel agwedd hyblyg at fynd i'r afael â gwahanol gyfrifoldebau'r swydd.

Dangos ymrwymiad i nod MOSTYN o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r sefydliad drwy gydweithio i gyflawni hyn.

Mynd ati i ymgysylltu'n frwd â chynulleidfa MOSTYN er mwyn rhoi cyfle i bobl lunio safbwyntiau newydd, a chyfrannu at y weledigaeth o fywiogi bywyd pobl drwy gelf gyfoes a mathau eraill o gelf.

Ymgysylltu â chynulleidfa MOSTYN er mwyn creu cyfleoedd i bobl ffurfio safbwyntiau newydd, a chyfrannu at ein weledigaeth o gyfoethogi bywydau pobl trwy arddulliau celf gyfoes ac eraill.

Cynnig safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid, hyrwyddo darpariaeth MOSTYN i'r eithaf drwy sgwrsio ag ymwelwyr a rhannu gwybodaeth, a chyfrannu at agwedd entrepreneuraidd MOSTYN at gynaliadwyedd.

Gweithio ochr yn ochr â Gwirfoddolwyr Ymgysylltu ag Ymwelwyr MOSTYN i gyflawni'r uchod.

Prif ddyletswyddau:

Cyfarch ymwelwyr a sicrhau bod eu holl ofynion yn cael eu bodloni, drwy ddarparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid.

Ymgysylltu ag ymwelwyr, darparu gwybodaeth am arddangosfeydd cyfredol a'r rhai sydd ar y gweill, a hyrwyddo gweithgareddau, digwyddiadau, gwasanaethau a'r ddarpariaeth manwerthu.

Annog ymwelwyr i ymwneud yn weithredol â'r rhaglen, gan symud o drafod celf i gymryd rhan mewn celf.

Ateb ymholiadau'n effeithiol, gan gyfeirio ymholiadau at y rheolwr priodol pan fydd angen.

Sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei arddangos yn saff ac yn ddiogel, dilyn gofynion penodol ynghylch arddangos a chynnal a chadw gwaith sydd dan ofal MOSTYN, a thynnu sylw'r rheolwyr priodol at unrhyw broblemau/ materion.

Cynnal teithiau grŵp a sgyrsiau byr ar gyfer ysgolion, colegau, grwpiau diddordeb a chymunedol ac aelodau o'r gynulleidfa gyffredinol, fel y cytunir gyda'r Gwirfoddolwyr Ymgysylltu ag Ymwelwyr a'r Curadur Cynhwysiant a Dysgu.

Cymryd rhan mewn sesiynau wedi'u cynllunio yn ystod ymweliadau grŵp/ ysgol fel y cytunir gyda'r Gwirfoddolwyr Ymgysylltu ag Ymwelwyr a'r Curadur Cynhwysiant a Dysgu.

Helpu gyda gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu yn ôl yr angen.

Sicrhau bod y deunyddiau print yn gyfoes a bod digon ohonynt yn y siop, yr oriel a'r cyfleusterau caffi.

Sicrhau bod y cyfleusterau'n lân ac yn edrych ar eu gorau.

Cynnig arweiniad, yn ôl yr angen, i'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, gwasanaethau dehongli ac am lunio arwyddion er mwyn sicrhau addasrwydd ac i wella profiad ymwelwyr.

Cyflawni tasgau gweinyddol yn ôl yr angen.

Cynnal arolygon ymwelwyr/holiaduron eraill ar y cyd â'r Rheolwr Cysylltiadau Cynulleidfa.

Gweithio fel rhan o'r tîm gosod/dadosod arddangosfeydd, gan helpu'r Curadur Rhaglen Celfyddydau Gweledol a'r Rheolwr Gweithrediadau a Chyfleusterau i gyflwyno'r gwaith yn y ffordd fwyaf effeithiol, yn ôl yr angen.

Mynd i unrhyw gyrsiau hyfforddi yn ôl yr angen, a chyflawni unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill a allai gael eu dirprwyo i chi gan y Cyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli.

Yn yr un modd â phob aelod arall o staff, disgwylir i'r Aelod o'r Tîm Ymgysylltu wneud y canlynol:-
- Bod yn gyfrifol am ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac iechyd a diogelwch ei gydweithwyr.
- Sicrhau diogelwch yr oriel a mannau eraill yn MOSTYN.
- Gweithio fel eiriolwr i MOSTYN a hyrwyddo ei weledigaeth a'i weithgareddau.
- Cydweithio â phob adran arall.
- Sicrhau y glynir wrth systemau, polisïau a phrosesau MOSTYN wrth gyflawni dyletswyddau.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau. Efallai y bydd angen gwneud dyletswyddau rhesymol eraill ar gyfer gweithredu'r swyddogaeth hon yn llwyddiannus a chyflawni amcanion y sefydliad.

Amlinelliad o fanyleb y person:

H= Hanfodol D= Dymunol

Gwybodaeth:

- Dealltwriaeth o gelfyddydau gweledol cyfoes, gyda thystiolaeth eich bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf. (H)

- Dealltwriaeth o swyddogaeth sefydliadau celf. (H)

Sgiliau:

- Brwdfrydedd dros drafod materion bywyd cyfoes drwy gelf gyfoes ac ymgysylltu â chynulleidfa mor eang â phosibl i drafod heriau a chyfleoedd celf gyfoes. (H)

- Hyderus, cyfeillgar, gallu mynegi eich hun yn glir a gallu defnyddio'r rhinweddau hyn i ysbrydoli ymwelwyr a'u helpu i ddeall y gwaith sy'n cael ei arddangos yn ogystal â nodau a gweledigaeth MOSTYN. (H)

- Gallu cyfathrebu ag oedolion, plant a phobl ifanc, ar eu pen eu hunain ac mewn grwpiau. (H)

- Sgiliau gwasanaethau cwsmeriaid. (H)

- Gallu gweithio fel aelod effeithiol o dîm. (H)

- Sgiliau ymarferol, gyda'r gallu i weithio ag amrywiaeth o declynnau ac offer wrth osod a dadosod arddangosfeydd. (D)

- Gallu gweithio yn hyblyg. (H)

Profiad:

- Gweithio mewn amgylchedd oriel/amgueddfa. (D)

- Gweithio gyda chynulleidfaoedd amrywiol. (D)

- Gweithio ar osod arddangosfeydd sy'n cynnwys sawl ffurf ar gelf. (D)

Nid yw gallu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon ond byddai'n cael ei ystyried yn ased.

Nid yw'r gallu i weithio mewn mannau uchel yn hanfodol ond byddai'n cael ei ystyried yn ased.

Oriau:

Diwrnodau pendant

Dydd Sadwrn 10.45yb – 4.00yp
Dydd Sul 10.45yb – 4.00yp

Mae gweitho ar benwythnosau yn rhan anatod o'r swydd. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd fod ar gael i weithio tra mae aelodau eraill o'r staff ar wylie.

Mae MOSTYN wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol ac mae'n falch o fod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Rydyn ni'n annog ceisiadau gan bob adran o'r gymuned, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd pob ymgeisydd cymwys yn cael ei ystyried ar gyfer cyflogaeth heb ystyried hil, lliw, crefydd, rhyw, hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, tueddfryd rhywiol, tarddiad cenedlaethol, anabledd nac oedran. Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o bolisïau cyflogaeth cynhwysol sy'n ystyriol o'r teulu a threfniadau gweithio hyblyg.

Sut i ymgeisio:
Ebostiwch eich CV ynghyd â llythyr eglurhaol at Cecily Shrimpton [Goruchwyliwr Tîm Profiad Ymwelwyr] cecily@mostyn.org (Ceisiadau drwy'r post drwy drefniant ymalen llaw yn unig)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5.30yp Ddydd Mercher 23ain Mehefin 2021

Dyddiad y cyfweliad: Dydd Mercher 30ain Mehefin 2021

Dyddiad cychwyn - 17eg Gorffennaf 2021